# MONITRO CYNNYDD ACADEMAIDD: LLINELL AMSER

Paratowyd y llinell amser hon er mwyn atgoffa'r Cyfadrannau o'r dyddiadau/cyfnodau allweddol ar gyfer monitro cynnydd academaidd yn ystod y flwyddyn, ac yn benodol y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno argymhellion diarddel i'r Gofrestrfa Academaidd. Dylid ei defnyddio gyda'r dogfennau canlynol:

- Y Rheoliad ynghylch Cynnydd Academaidd: https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/academic-progress/
- Adran 3.4 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/
- Siart llif a Thempledi ar gyfer Llythyrau (gweler adran 3.13 y Llawlyfr Ansawdd)

| **LLINELL AMSER** | |
|---|---|
| **TYMOR 1** | |
| Wythnosau cyntaf y dysgu | Y Cyfadrannau i ganolbwyntio ar fyfyrwyr:<br>• Sy'n ailadrodd y flwyddyn am resymau academaidd<br>• Sydd eisoes wedi mynychu cyfweliad a derbyn rhybudd ar sail cynnydd annigonol yn ystod y sesiwn academaidd |
| Diwrnod gwaith olaf mis Tachwedd | Y dyddiad olaf y gall y Cyfadrannau gyflwyno argymhellion diarddel i'r Gofrestrfa Academaidd (qaestaff@aber.ac.uk) er mwyn eu cadarnhau y Nadolig. Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn eu hystyried erbyn diwedd Tachwedd, ac os caiff myfyrwyr eu diarddel dylent gael 10 diwrnod gwaith i gyflwyno apêl. |
| **TYMOR 2** | |
| Cyfnod arholiadau Semester 1 | Ni fydd y Gofrestrfa Academaidd yn anfon llythyrau diarddel yn ystod y cyfnod arholiadau. Dylai'r Cyfadrannau drafod unrhyw achosion posibl â Chofrestrydd y Gyfadran (neu enwebai) yn ystod y cyfnod hwn, a chyflwyno argymhellion i'w hystyried ar ddechrau cyfnod dysgu Semester 2. Mewn rhai achosion mae'n bosibl y byddai'n briodol gohirio penderfyniad i gadarnhau diarddel hyd nes bod canlyniadau Semester 1 wedi eu cadarnhau. |

| | |
|---|---|
| Pythefnos olaf tymor 2 | Y Cyfadrannau i adolygu'r achosion, a pharatoi argymhellion diarddel lle bo'n berthnasol. Os nad oes modd rhoi rhybudd a chwrdd â'r terfyn amser ar gyfer diarddel ar ddechrau Tymor 3, bydd angen mynnu bod myfyrwyr yn mynychu cyfarfod gyda Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran (neu enwebai) ar ddechrau Tymor 3. |
| **TYMOR 3** | |
| Dechrau tymor 3 | Ni fydd y Gofrestrfa Academaidd yn anfon llythyrau diarddel yn ystod y cyfnod arholiadau. Diwrnod cyntaf wythnos 9 y dysgu yw'r diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno argymhelliad i ddiarddel trwy'r Gofrestrfa Academaidd. |
| Wythnos olaf y dysgu | Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran (neu enwebai) i gynnal cyfarfodydd gyda myfyrwyr ac anfon rhybuddion (TEMPLED F) y gallai Bwrdd Arholi'r Senedd ystyried argymhelliad i ddiarddel.<br><br>Os nad yw'r myfyriwr yn mynychu'r cyfarfod, defnyddier TEMPLED G – noder nad yw hwn yn caniatáu i fyfyrwyr gynnig esboniad ac aildrefnu'r cyfarfod. |
| Dyddiadau cau Mehefin ar gyfer cyflwyno cofnodion/amgylchiadau arbennig i Fwrdd Arholi'r Senedd | • Dylid cyflwyno argymhellion (Templed E) diarddel i qaestaff@aber.ac.uk<br>• Dylid nodi achosion hefyd yng nghofnodion byrddau arholi'r adrannau er mwyn gallu croesgyfeirio |
| Byrddau Arholi'r Senedd yn mis Mehefin | Bydd Bwrdd Arholi'r Senedd yn cadarnhau diarddel myfyrwyr, a bydd y Gofrestrfa Academaidd yn anfon llythyrau diarddel yn dilyn y Byrddau. Bydd argymhelliad Bwrdd Arholi'r Senedd i ddiarddel myfyriwr dros dro neu'n barhaol yn amodol ar wiriad gan y Gofrestrfa Academaidd i sicrhau bod y cyfadrannau wedi dilyn y weithdrefn a nodir yn y Rheoliad Academaidd ar Gynnydd Academaidd. |


| | | | |
|---|---|---|---|
| Fersiwn: | 1.6 | Dyddiad Cyhoeddi: | Medi 2024 |
| Rheswm dros ddiweddaru: | Adolygwyd i gynnwys terminoleg ystyriol o drawma | | |
| | | | |
| | | | |

Egluro swyddogaeth Bwrdd Arholi'r Senedd ym mis Mehefin

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymeradwywyd: | Y Gofrestrfa Academaidd | Dyddiad Gweithredol: | Medi 2024 |
| Cyswllt: | Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd | | |